**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 08 CHWEFROR 2024**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Jina Gwyrfai, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Arwyn Herald Roberts, Meryl Roberts, Huw Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Rob Triggs ac Elfed Wyn ap Elwyn

**Aelodau Lleyg**: Sharon Warnes (Cadeirydd), Hywel Eifion Jones, Clare Hitchcock, Carys Edwards a Rhys Parry

**Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Thomas Jones (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Heledd Gwilym (Uwch Gyfrifydd - Adnoddau a Chorfforaethol), Caleb Lewis (Cynllun Yfory - Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg), Nel Povey (Cynllun Yfory - Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid) a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

| | |
|---|---|
| Eitem 5: | Alan Hughes (Archwilio Cymru) a Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) |
| Eitem 6: | Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg) ac Alan Hughes (Archwilio Cymru) |
| Eitem 7 ac 8: | Cyng. Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr) ac Iwan Evans (Swyddog Monitro) |

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Richard Glyn Roberts, Yvonne Thomas (Archwilio Cymru) a Tony Bates (Estyn)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet Cyllid i roi adborth ar y sylwadau a gyflwynodd y Pwyllgor i'r Cabinet (23 Ionawr 2024) ar yr eitem Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion; cafwyd hefyd diweddariad ar y gwaith sydd yn cael ei gyfarch mewn adolygiadau parthed gorwario mewn adrannau (eitem Cyllideb Refeniw 2023/24).

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Croesawu adborth o ymatebion a dderbyniwyd gan y Cabinet (23/01/24) i sylwadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar yr eitem Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion a Cyllideb Refeniw 2023/24**

## 5. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynywd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Atgoffwyd yr Aelodau bod ganddynt gyfrifoldeb i ystyried adroddiadau allanol (cenedlaethol a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, goblygiadau llywodraethiant, rheoli risg neu reolaeth a sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o'r archwiliadau yn cael eu gweithredu.

Amlygodd Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor bod ffurflen ymateb yn cael ei chwblhau gan y rheolwyr fel trefn i'r broses ymateb erbyn hyn, gyda'r cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn yr argymhellion gwella. Nododd bod y gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o gynigion gwella yn waith parhaus a bod y Grŵp Llywodraethu sydd yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn rhoi sylw i'r cynigion gwella ac i'r cynnydd yn yr argymhellion. Ategwyd na fydd y cynigion hynny sydd yn derbyn casgliad yn nodi 'wedi ei gwblhau – gwaith parhaus' a 'wedi ei gwblhau – argymhellion wedi eu gwireddu'yn derbyn sylw pellach gan y Pwyllgor; Bydd diweddaraid i'r rhai hynny sy'n derbyn casgliad 'gwaith paratoadol' ac 'ar waith' yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen 6 mis a bydd gwaith yn cael ei wneud i'r dyfodol i addasu fformat yr adroddiad fel bod cynnwys yr argymhellion yn gyson

Diolchwyd am yr adroddiad. Cyfeiriwyd at bob archwiliad yn ei dro.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pha fath o archwilio cefndir sydd yn cael ei gwblhau ynghyd ag os yw'r Archwilwyr yn fodlon bod camau digonol wedi eu cymryd i gyfarch yr argymhellion, nodwyd mai disgwyliad Cyngor Gwynedd yw i'r wybodaeth yma gael ei gynnwys ar y ffurflen ymateb ac y bydd diweddariad pob chwe mis yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hyd nes bydd yr argymhellion wedi eu cyfarch yn llawn. Ategwyd bod disgwyli'r cynnydd hefyd gael ei drafod yn fewnol mewn cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad.

Ategodd Swyddog Archwilio Cymru nad oedd argymhellion yn cael eu olrhain, ond bod nifer o'r materion sydd yn codi yn dueddol o godi mewn agweddau o waith gwahanol sydd felly'n creu darlun o ymateb.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd yr Aelod bod angen rhyw lefel o wrthrychedd a sicrwydd fyddai'n ychwanegu gwerth wrth hunanasesu. Gofynnwyd os byddai Archwilio Mewnol yn gallu cwblhau'r gwaith yma? Mewn ymateb i'r cwestiwn, nododd y Pennaeth Cyllid, o safbwynt gwaith Archwilio Mewnol, byddai'n ddibynnol ar y math o argymhelliad sy'n cael ei argymell ac os yw'n haeddu sylw. Ategodd nad oedd hyn yn dod o dan drefniadau Archwilio Mewnol ond y byddai modd ei gynnwys fel rhan o gynllun Archwilio Mewnol. Ategodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y cyfarfodydd herio a chefnogi

perfformiad yn heriol ac yn unol â sylw'r Archwilwyr, os nad oes rhywbeth wedi derbyn sylw digonol, trwy gyfuniad, byddai pethau yn dod i'r amlwg.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth oedd y nifer a ymgysylltwyd â hwy (‘Amser yn Newid - Tlodi yng Nghymru’ - ymateb i argymhelliad 5 sy’n nodi, ‘dros y 18mis diwethaf rydym wedi ymgysylltu gyda **nifer** fawr o bobl sydd mewn tlodi ...’), nododd Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor y byddai yn canfod y wybodaeth ac yn darparu rhif ar gyfer y nifer y mae’r Cyngor wedi ymgysylltu â hwy.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a nodi bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella yn cael eu gweithredu**

Nodyn:

- Ymateb i Argymhelliad 5 ‘Amser am newid - Tlodi yng Nghymru’ - Darparu rhif ar gyfer y nifer y mae’r Cyngor wedi ymgysylltu â hwy
- Addasu fformat yr adroddiad i’r dyfodol fel bod cynnwys yr argymhellion yn gyson

## 6. AROLYGIAD ESTYN O WASANAETHAU ADDYSG CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg oedd yn cynnwys adroddiad Estyn o wasanaethau addysg Cyngor Gwynedd (Mehefin 2023) er sylw’r Pwyllgor. Yn unol â chyfrifoldebau’r Pwyllgor o adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor, mae disgwyliad i ystyried adroddiadau Estyn. Amlygodd bod Archwilio Cymru wedi cyfrannu at ganlyniad yr arolwg a bod yr adroddiad eisoes wedi ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Tachwedd 2023.

Cyfeiriwyd at y prif bwyntiau a amlygwyd gan Estyn ynghyd ar argymhellion fyddai’n gwella’r gwasanaeth. Cyfeiriwyd hefyd at y cynllun gweithredu sydd wedi ei ddarparu gan yr Adran Addysg mewn ymateb i’r argymhellion hynny (nid yw’r cynllun gweithredu wedi ei gyflwyno i Estyn oherwydd mai argymhellion yn ymwneud a materion lleol sydd yma ac nid materion statudol).

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth ddilynol:

- Bod yr adroddiad yn un positif iawn
- Croesawu bod trafodaeth lawn wedi bod ar yr adroddiad a’r cynllun gweithredu yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gydag argymhelliad i’w alw yn ôl am ddiweddariad pellach ymhen 9 mis
- Bod rôl bendant gan y Gwasanaeth Ieuenctid i chwarae rhan mewn cyfleoedd i bobl ifanc
- Presenoldeb disgyblion – bod y patrwm yn amrywio o ysgol i ysgol
- Croesawu camau i sicrhau mwy o gysylltiad rhwng craffu a blaenoriaethau gwella Cynllun y Cyngor

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag adrodd ar gynnydd y cynllun gweithredu, nodwyd y bydd diweddariad o’r cynnydd /diffyg cynnydd a wnaed ar yr argymhellion yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Medi 2024.

Mewn ymateb i gwestiwn mai dim ond rhai o sylwadau Estyn sydd wedi arwain at argymhelliad, nodwyd bod tri mater yn sefyll allan ac wedi eu mabwysiadu fel rhan o flaenoriaethau’r Adran eleni. Ategodd bod y tri argymhelliad yn arwyddocaol tra bod erial

yn rhan o waith bob dydd e.e., ymateb i ysgolion sydd yn tanberfformio. Derbyniodd, fel rhan o'r broses adolygu, bod angen sicrhau mwy o wybodaeth tu ôl i'r sylwadau llai arwyddocaol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gostyngiad sylweddol mewn presenoldeb disgyblion ers covid 19 a pham bod Gwynedd gyda lefel uwch nag Awdurdodau eraill yng Nghymru, nodwyd nad oedd Gwynedd yn is na Chymru erbyn hyn (Gwynedd y cyntaf o'r Awdurdodau i gael eu harolygu ar fater presenoldeb ôl-covid ac felly amseriad yr arolwg yn awgrymu perfformiad Gwynedd yn is), ond yn derbyn bod presenoldeb yn destun pryder ac yn her genedlaethol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â data 2021 - cyllid ysgolion arbennig, bod Gwynedd o fewn y chwartel isaf yng Nghymru a'r effaith posib y gall hyn gael ar ysgolion ac addysg arbennig yng Ngwynedd, nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i gyfarch y mater. Ategwyd mai anodd yw gwneud cymariaethau cenedlaethol gan fod natur plant a dwyster yr anghenion yn arwain at osod cyllideb i ysgolion arbennig i gyfarch yr anghenion hynny. Ategodd mai anodd yw dadansoddi effaith er bod cynnydd diweddar wedi ei weld yn y gyllideb; Amlygodd y bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Fforwm Cyllideb Ysgolion.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â ehangu gwybodaeth am brosiectau Addysg o fewn Cynllun y Cyngor ac os oedd bwriad dod a mwy o waith prosiectau Addysg o flaen y Pwyllgor Craffu, nodwyd bod trefniadau cyflwyno mwy o faterion addysg i'r Pwyllgorau Craffu yn weithredol ers mis Medi 2023

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn cynnwys adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd**
- **Derbyn a nodi'r trefniadau i graffu ar drefniadau'r Adran Addysg i ymateb i argymhellion yr adroddiad yn amserol**

**7. ARBEDION 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Dyfrig Siencyn Arweinydd y Cyngor, yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad yn eu cyfarfod 20-02-24. Adroddwyd nad rôl y Pwyllgor oedd mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol sy'n cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

Wrth gyflwyno cefndir i'r gwaith, nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn cyflawni arbedion yn ddiffael ers 15mlynedd bellach a'r her o gyflawni'r arbedion hynny heb niweidio gwasanaethau trigolion y Sir yn anoddach. Eglurwyd bod y Cyngor bellach yn ymwybodol o lefel Grant Cynnal Refeniw (GCR) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 (cynnydd o 2%), ac y bydd yn sylweddol is na lefel chwyddiant a chryn bellter islaw'r hyn fydd ei angen i gynnal lefel gwasanaethau presennol.

Ategodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor hefyd yn wynebu sefyllfa lle mae adrannau yn gorwario, a hynny yn bennaf oherwydd cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau; yn amhosib erbyn hyn i rai gwasanaethau megis digartrefedd, gofal plant, gofal oedolion a chludiant ysgolion weithredu o fewn eu cyllideb presennol. Bydd hyn yn arwain at orwariant eleni o oddeutu £8m a gan nad oedd cyfle i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y bwlch, bydd rhaid defnyddio arian wrth gefn i ymdopi â'r sefyllfa. Canlyniad darparu

cyllideb uwch ar gyfer yr adrannau sydd methu ymdopi â'u cyllideb presennol, cyfanswm Grant Cynnal Refeniw isel gan y Llywodraeth, yw bwlch ariannol eleni o £14.9m.

I ganfod arbedion, cyflwynwyd 135 o gynigion gan Adrannau'r Cyngor. Aseswyd pob cynnig gan y Prif Weithredwr neu gan un o'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac fe'u gosodwyd mewn pedwar categori i gynorthwyo'r Aelodau flaenoriaethu cynlluniau arbedion 2024/25 gydag ymwybyddiaeth o beth fyddai'r lefel risg o weithredu unrhyw gynnig unigol. Yn ystod gweithdai a gynhaliwyd gyda'r Aelodau, gosodwyd yr holl gynigion mewn categoriau er mwyn eu blaenoriaethu o'r rhai mwyaf 'derbyniol' hyd at y cynigion lleiaf 'derbyniol'. Adroddwyd bod consenswys bras ymysg yr holl aelodau a gymerodd ran yn y gweithdai (oedd yn cynnwys Aelodau Cabinet, Cadeiryddion Craffu ac Arweinyddion Grŵp ) bod posib gweithredu oddeutu £5.2m o'r cynigion dros y ddwy neu dair blynedd nesaf.

Cyfeiriwyd at ddau ran i'r broses gyda rhan A yn cynnwys cynlluniau y gellid symud ymlaen i'w gweithredu yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet tra bod rhan B yn adlewyrchu cynlluniau sydd yn ddarostynedig i gamau statudol neu benderfyniadau pellach cyn y gellid eu cadarnhau. Ategwyd bod asesiad cyfreithiol, cydraddoldeb, effeithlonrwydd ac asesiad ariannol lefel uchel angen eu cwblhau ar bob cynllun unigol i sicrhau bod modd eu cyflawni ac er mwyn cynllunio'n ddarbodus bydd rhagdybiaeth risg rhesymol yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Arbedion. Argymhellwyd £0.52m (10%) o'r cyfanswm o £5.2m y bydd angen ei ganfod fel swm i'w ddynodi "dan risg".

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn, gan dderbyn bod asesiad risg wedi ei wneud i'r cynllun arbedion yn ei gyfanrwydd, ac os felly a oedd asesiad risg wedi ei wneud ar gyfer cynlluniau unigol, nododd y Prif Weithredwr bod asesiad cydraddoldeb wedi ei gwblhau, ond yn dilyn penderfyniad y Cabinet (20-02-24) bydd asesiad penodol i bob cynllun yn cael ei weithredu. Ategodd y posibilrwydd na fydd modd cyfarch yr arbedion yn dilyn asesiad llawn ac felly bydd angen ystyried y ddarpariaeth gyfwng.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Yn derbyn bod y broses wedi bod yn un heriol
- Bod proses manwl, trylwyr a phriodol wedi ei chwblhau
- Bod y sesiynau briffio wedi bod yn fuddiol
- Bod angen i'r aelodau, wrth flaenoriaethu cynigion i'r dyfodol, gael gwybodaeth ynglŷn â chostau pob cynllun yn erbyn codi treth Cyngor
- Cynigion 'lleihau gweithgareddau celf cymunedol' a 'lleihau gweithgareddau hwyl haf plant' - cyfleoedd yma i leihau costau drwy gydweithio gyda Phartneriaid / noddwyr lleol

Mewn ymateb i sylw bod angen sicrhau cynllun cyfathrebu clir mewn lle fel bod trigolion y Sir a staff y Cyngor yn ymwybodol o'r newidiadau a bod 'pawb yn mynd i'r un cyfeiriad', nododd y Prif Weithredwr, bod nifer o drafodaethau wedi eu cynnal gyda staff a chyfarfodydd rhwydwaith rheolwyr yn cael eu cynnal bob chwarter. Ategodd bod gofal wedi ei gymryd cyn cyhoeddi cynlluniau terfynol i osgoi codi ofn ar drigolion a staff, ond erbyn hyn y cynlluniau yn gyhoeddus ar wybodaeth yn onest, dryloyw a theg. Nododd hefyd bod cyfathrebu wedi ei wneud drwy'r wasg, y cyfryngau cymdeithasol a staff ar lein gyda chyfle i rannu a derbyn adborth. Ategodd bod yr ymgyrch o gyfathrebu yn un barhaus, ac wrth symud i wireddu arbedion bydd sgyrsiau anodd i ddod.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r rhesymeg bod y ganran risg yn 10% lle yn y gorffennol gwelwyd canran risg o 20%, nododd y Pennaeth Cyllid petai'r cynnydd yn y ddarpariaeth yn uwch byddai'r bwlch yn fwy felly angen sicrhau balans. Ategodd bod gwaith yn cael ei wneud i herio'r cynlluniau i sicrhau eu bod yn realistig ac o ganlyniad y ddarpariaeth yn lleihau; 20% fyddai'r ganran ddelfrydol, ond bod 10% yn ddigon eleni.

Mewn ymateb i sylw os yw'r cynnydd yn y galw cynyddol ar wasanaethau wedi ei gyfiawnhau / asesu ac os byddai modd cyflawni arbedion o'r asesiadau hyn, nododd y Prif Weithredwr bod pob ymdrech yn cael ei wneud i gyflwyno gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol, ond os yw'r sefyllfa yn parhau, yna bydd rhaid derbyn y sefyllfa. Ategodd bod pob cynllun yn cael ei herio fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn briodol. Nododd, e.e., bod cynnydd annisgwyl yng ngwasanaethau plant lle mae rhaid ymateb i'r galw a gyda gwasanaethau'r henoed a'r digartref, nid oes elfen o ddewis peidio cyflwyno gwasanaethau iddynt. Er bod gwaith yn cael ei wneud i asesu sefyllfaoedd, nid yw peidio gofalu yn opsiwn – rhaid edrych felly at wasanaethau eraill i geisio arbedion.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Pwyllgor am eu sylwadau ac am y pwyntiau i'w hystyried ar gyfer 2025/26. Ategodd bod rhaid cyfathrebu yn glir gyda'r cyhoedd, a gyda phob Awdurdod ar draws Gogledd Cymru mewn sefyllfa debyg, nododd bod bwriad cyhoeddi datganiad ar y cyd yn cyfleu'r sefyllfa. Nododd, i'r dyfodol, y bydd trefniadau Awdurdodau Lleol yn newid yn sylweddol gyda chynnydd mewn dibyniaeth ar wirfoddolwyr a'r trydydd sector.

**PENDERFYNWYD:**

- **Bod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion**
- **Bod yr arbedion a gynigwyd yn rhesymol a chyraeddadwy**
- **Bod y risgiau a'r goblygiadau'r penderfyniad yn glir**
- **Bod yr adroddiad yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion**
- **Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr adroddiad i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo'r Cynllun Arbedion 2024/25 yn eu cyfarfod 20/2/24**

Nodyn:
Bod cynllun cyfathrebu clir mewn lle

## 8. CYLLIDEB 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid yn nodi fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 2.0% (cyfartaledd Cymru yn 3.1%) ar gyfer 2024/25, sy'n cyfateb i werth £4.1m mewn ariannu allanol. Adroddwyd y byddai nifer o ffactorau yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor yn 2024/25 gyda'r angen i gynyddu gwariant o £22.4m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau. Yn ogystal â chyfarch y galw ar wasanaethau a graddfa chwyddiant uchel bydd rhaid ystyried cyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a rhaglen newydd o arbedion a thoriadau. Gydag argymhelliad o gynnydd o 9.54% yn y Dreth Cyngor bydd angen £2m ychwanegol o arbedion i osod cyllideb gytbwys gyda rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

Amlygwyd mai rôl y Pwyllgor oedd craffu'r wybodaeth gan sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt fel bod y penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid yn ei rôl fel swyddog cyllid statudol i gyflwyno'r wybodaeth, i fynegi ei farn a manylu ar gadernid yr amcangyfrifon oedd yn sail i'r gyllideb ynghyd a'r risgiau posib a'r camau lliniaru.

Amlygodd y bydd y Cabinet (cyfarfod 20/02/24) yn argymell i'r Cyngor Llawn (07/03/24) i sefydlu cyllideb o £330,590,040 ar gyfer 2024/25 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o

£232,092,110 a £98,497,930 o incwm o'r Dreth Cyngor (sydd yn gynnydd o 9.54% ar dreth anheddau unigol) a sefydlu rhaglen gyfalaf o £85,224,800 yn 2024/25.

Eglurwyd bod Gofynion Gwario Ychwanegol wedi eu hystyried yn y gyllideb ac amlygwyd y meysydd hynny;

- Chwyddiant Cyflogau o £15.1m – y gyllideb yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2024/25 o 5% ar gyfer yr holl weithlu o Ebrill 2024 ac athrawon o Fedi 2024
- Cyfraniad cyflogwr tuag at Pensiwn Athrawon – cost o £2.36m - y gyllideb wedi ei gosod ar sail y bydd y gost yn cael ei ariannu yn llawn gan y Llywodraeth
- Chwyddiant Arall o £6.8m - swm sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod eang o newidiadau yn ddibynnol ar raddfa chwyddiant meysydd penodol (Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol, Gofal Dibreswyl, Ynni, Tanwydd, Cynnydd prisiau eraill).
- Ardollau i gyrff perthnasol yn cynyddu £342k
- Darpariaeth Chwyddiant Trydan o £3m
- Demograffi - lleihad net mewn nifer disgyblion a chynnydd mewn plant yn derbyn gofal
- Pwysau ar Wasanaethau - argymell cymeradwyo bidiau gwerth £5.1m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau. Nodwyd bod y bidiau a gyflwynwyd wedi eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet.

Cyfeiriwyd at ystyriaethau eraill lle nodwyd effaith cynnydd mewn derbyniadau llog mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau â llif arian y Cyngor ynghyd a rhyddhau darpariaeth (£1.4m) oedd mewn lle ar gyfer gwariant yn deillio o argyfwng Covid a chynnydd cost o £758k oherwydd cyllidebu am leihad grant Gweithlu Gofal a dderbynnir gan y llywodraeth.

Yng nghyd-destun y cynlluniau arbedion, nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £39.1m o gynlluniau arbedion ers 2015/16. Cyfeiriwyd at gynlluniau arbedion cynlluniedig presennol 2024/25 fesul adran sydd eisoes wedi eu cymeradwyo (£3,113,400) i leihau'r bwlch ariannu ynghyd a chynlluniau arbedion newydd o £4.78m fydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet 20-02-24. Awgrymwyd oedi ar benderfyniad arbedion/toriadau pellach gwerth £2m a phontio'r diffyg drwy ddefnyddio cronfeydd eraill. Cyfeiriwyd at y Bidiau Refeniw Parhaol (cyfanswm £5,052,820) gan rai adrannau oedd yn cyfarch pwysau ychwanegol ar eu gwasanaethau.

Adroddwyd y byddai angen cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor. Cydnabuwyd bod dewis rhwng cynnal gwasanaethau a chynnig lefel rhesymol o drethiant yn un anodd. Bydd y Cabinet yn argymell i'r Cyngor Llawn i godi'r dreth 9.54% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau wrth osod cyllideb gytbwys ar lefel tebyg i fwyafrif o awdurdodau eraill Gogledd Cymru.

Cyfeiriwyd at y gwaith gofynnol a wnaed i adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon sydd yn sail i'r gyllideb ac wedi amlygu'r risgiau a'r camau lliniaru roedd y Pennaeth Cyllid o'r farn fod y gyllideb y ar gyfer 2024/25 yn un gadarn, digonol a chyraeddadwy.

Diolchwyd am y cyflwyniad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Bod rheolaeth trysorlys mewn dwylo da
- Bod yr amcanion wedi cael eu hystyried mewn modd realistig
- Bod ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i'r drefn bidiau
- Bod Gwynedd yn cymharu yn dda ia wn gyda chynghorau eraill

- Yn fodlon gyda threfniadau'r Cyngor wrth osod cyllideb

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â bid refeniw parhaol am welliannau i system ffôn y Cyngor (£239k) ac os oedd hwn yn fid unwaith ac am byth, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod hwn yn fid unwaith ac am byth ac yn rhan o'r Cynllun Digidol, gyda'r swm yn cynnwys costau technegol, staffio a thrwyddedu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chwyddiant Ynni (Trydan a Nwy - £1.6m) ac os oedd hyn oherwydd ymrwymiad cytundeb, nododd y Pennaeth Cyllid, er bod y cytundeb yn dod i ben, bod rhaid adrodd ar y cynnydd.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â risg cyflawni'r arbedion, nodwyd bod rhaid sicrhau cynlluniau realistig ac felly bod yr elfen o risg yn bodoli, ac er yn anymwybodol o unrhyw elfen o syndod, bod rhaid gosod symiau ariannol i osod y gyllideb. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â phryder yn yr oediad i arbed £2m eleni ac y byddai hwn yn batrwm fydd yn parhau mewn blynyddoedd i ddod, nodwyd bod meysydd o danwario ymysg penawdau corfforaethol fydd yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Strategol; gyda £7m yn cael ei drosglwyddo eleni, bydd arian ar gael i lenwi'r bwlch.

Awgrymwyd bod rhai o'r amcanion yn gyrhaeddol, ac er yn ddibynnol ar anghenion a natur pobl, bod yr arbediad o fewn y cynlluniau yn gyrhaeddol, er bod rhai o'r amcanion yn statudol. Rhaid felly sicrhau bod cynlluniau manwl ar gyfer y cynigion.

Mewn ymateb i sylw bod rhai Awdurdodau yn defnyddio arian premiwm ail gartrefi ar gyfer gwasanaethau statudol (ac nid gwasanaethau tai yn unig fel mae Gwynedd wedi ei benderfynu) ac i gadw'r dreth cyngor i lawr, ac os oedd hyn wedi cael ei ystyried wrth osod cyllideb 2024/25, nododd y Pennaeth Cyllid bod y premiwm yn effeithio lefel sylfaen drethiannol ac felly nid oedd yn credu ei fod yn briodol gosod lefel y Premiwm ar yr un adeg â gosod y gyllideb. Er mwyn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol roedd y swyddog o'r farn fod rhaid gosod Premiwm ar gyfer y flwyddyn ddilynol cyn diwedd mis Rhagfyr. Ategodd bod Gwynedd wedi ymrwymo i gynllun tymor hir o ddefnyddio'r premiwm tai i gyllido cronfa weithredol y Cynllun Tai a materion digartrefedd; byddai unrhyw newid yn creu effaith ar y cynlluniau hyn.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys**
- **Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol**
- **Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2023/24 yn eu cyfarfod 20/2/24**

## 9. STRATEGAETH GYFALAF 2024/25 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)

Cymerodd yr Aeldod Cabinet y cyfle i ddiolch i'r Aelodau a fynychwyd y cyfarfod gydag Arlingclose 07-02-24 ac amlygodd bod Arlingclose wedi nodi bod 'Gwynedd yn mynd i'r cyfeirad cywir'.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn rhoi trosolwg ar weithgareddau Cyfalaf a rheolaeth trysorlys y Cyngor ac fel y nodwyd uchod, roedd yr Aelodau wedi derbyn cyflwyniad gan yr ymgynghorwyr ariannol, Arlingclose yn egluro'r manylder tu ôl i'r strategaeth mewn modd dealladwy a chynhwysfawr.

Cyfeiriwyd at y gweithgareddau cyfalaf a thynnwyd sylw bod y Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £90.2miliwn yn 24/25 gyda'r prif gynlluniau wedi ei rhestru yn yr

adroddiad ynghyd a'r ffynonellau ariannu. Nodwyd mai'r adnoddau allanol yn bennaf yw Llywodraeth Cymru ac adnoddau ein hunain yw'r cronfeydd. Daw gweddill o'r arian trwy fenthyciad fydd yn cael ei dalu nôl dros nifer o flynyddoedd, fel arfer o adnoddau refeniw neu o incwm gwerthiant asedau sydd yn gyson gyda gweithred y blynyddoedd blaenorol. Golygai hyn y bydd y dangosydd - Gofyn Cyllido Cyfalaf y Cyngor, yn £190.5 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 24/25, sef y lefel y dylai benthyg tymor hir y cyngor aros odditano.

Yng nghyd-destun y Strategaeth Fenthyca, amlygwyd yn ddiweddar nad oes gofyn benthyca tymor hir wedi bod, dim ond tymor byr ar gost isel dros ddiwedd y flwyddyn ariannol; bydd hyn am barhau gyda dim benthyca tymor hir yn cael ei ragweld ar gyfer gweithgareddau Cyngor Gwynedd, a bod dyled y Cyngor yn aros o dan y Gofyn Cyllido Cyfalaf.

Cyfeiriwyd at y Meincnod Ymrwymiadau sydd bellach yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor yn chwarterol erbyn hyn. Bydd y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad hyd ar 2027 oherwydd bod gan y Cyngor lefel uchel o reserfau.

Yng nghyd-destun Strategaeth Buddsoddi, nodwyd mai polisi'r Cyngor yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch i sicrhau bod arian ar gael i dalu am wasanaethau'r Cyngor. Nodwyd bod symiau yn cael eu cadw drwy'r adeg i sicrhau hylifedd parhaus - ystyriwyd bod cadw hylifedd a diogelwch yn flaenoriaeth ar hyn o bryd mewn cyfnod o doriadau a chwyddiant.

Cyfeiriwyd at y rheolaeth risg a llywodraethu ynghyd â manylder ymrwymiadau tymor hir y Cyngor e.e., unioni diffyg y Gronfa Bensiwn, ac effaith o'r costau ariannu i'r llif arian lle gwelir bod y ganran yn isel ac yn eithaf cyson gyda blynyddoedd blaenorol. Cadarnhawyd hefyd bod y wybodaeth a sgiliau perthnasol gan y swyddogion ac mai Arlingclose sydd yn parhau i ddarparu gwasanaeth ymgynghorwyr ariannol i'r Cyngor.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol**
- **Cefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar y 7fed o Fawrth 2024**

## 10. DIWEDDARIAD CANOL BLWYDDYN AR RISGIAU LLYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD

Yn dilyn awgrym gan y Pwyllgor yng nghyfarfod 12 Hydref 2023, cyflwynwyd adroddiad canol blwyddyn gan y Pennaeth Cyllid yn rhoi diweddariad ar gynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gymeradwywyd yn yr un cyfarfod.

Eglurwyd bod y datganiad, yn ddogfen statudol ac yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le. Atgoffwyd yr Aelodau bod Cofrestr Risg Llywodraethu yn rhan o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor wedi ei ddatblygu yn unol â 7 egwyddor craidd ar gyfer Llywodraethu Da. Adnabuwyd risgiau mewn 24 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hynny.

Adroddwyd ym mis Hydref, bod 4 math o risg a bod pob risg gyda pherchnogaeth adrannol; y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi dod i gasgliad bod 0 maes gyda

risgiau uchel iawn, 4 maes risgiau uchel, 11 maes risgiau canolig a 9 maes risgiau isel. Fodd bynnag, ers cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu ym mis Hydref 2023, adroddwyd bod newid i Risg Cyllid gyda'r sgôr wedi cynyddu o 10 (Risg Canolig) i 20 (risg Uchel Iawn). Eglurwyd er bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol, bod canlyniad y setliad, chwyddiant, yr angen i ddarganfod arbedion, y galw cynyddol ar wasanaethau, yn heriol a'r bwlch ariannol yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Er bod trefniadau ariannol cadarn mewn lle, gwaned penderfyniad i gynyddu'r sgôr risg i amlygu'r sefyllfa yn gywir - am y tro cyntaf yn 2023/24 rhagwelwyd y byddai pob un o adrannau'r Cyngor yn gorwario.

Diolchwyd am yr adroddiad. Nodwyd mai'r sefyllfa gyllidol yw'r risg mwyaf i'r Cyngor ac felly doeth oedd cynyddu'r sgôr risg.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag os yw'r gyllideb yn addas yn y lle cyntaf ac os oes ffordd i'r adrannau gynllunio ymlaen drwy ddefnyddio data / proffilio e.e., lleihad yn niferoedd ysgolion cynradd yn cael effaith ar ysgolion uwchradd - gellid plotio effaith i'r dyfodol, nodwyd, mewn sefyllfaoedd o orwario o fewn yr adnoddau sydd ar gael, bydd angen i adrannau sy'n parhau i orwario adrodd i Aelodau gydag eglurhad a chamau sydd i'w cymryd.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad, er gwybodaeth**
- **Cefnogi cynnydd sgôr risg CYLLID o 10 (Risg Canolig) i 20 (Risg Uchel Iawn) i adlewyrchu gwir sefyllfa ariannol y Cyngor**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a daeth i ben am 13:20

___________________________

**CADEIRYDD**